

# Pensioners Forum Wales

Mae Fforwm Pensiynwyr Cymru yn fforwm cenedlaethol o bobl hŷn (50 oed ac yn hŷn) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau pensiynwyr cenedlaethol amrywiol, ac adrannau aelodau wedi ymdeol o sefydliadau undebau llafur.

## ► Maniffesto

### Nodau Fforwm Pensiynwyr Cymru yw:

- Gweithio gyda'i gilydd er budd yr holl bobl hŷn yng Nghymru
- Ychwanegu cydraddoldeb, urddas a pharch at heneiddio a gwella ansawdd bywyd yn ddiweddarach

Camau cadarnhaol i helpu pobl hŷn i fyw bywydau hir a gweithgar trwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a dysgu gydol oes trwy ganolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau addysg oedolion

Gwasanaethau cludiant gwell, integredig a hygyrch ym mhob ardal

- Ymestyn y cynllun pàs bws am ddim i gynnwys cludiant cyhoeddus a chymunedol am ddim ledled y wlad
- Pàs fflecsi i'w ddefnyddio ar bob math o gludiant cyhoeddus
- Darparu cymorthdaliadau gwell i gefnogi gwasanaethau nad ydynt yn hyfyw yn ariannol gyda'r nos ac ar benwythnosau

## Ein galwadau allweddol:

### Gweithredu i ddiweddu rhagfarn ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oedran

Nid oes gan wahaniaethau ar sail oedran yr un statws â mathau eraill o wahaniaethu. Mae gormod o enghreifftiau o hyd o'r canlynol:

- Cynrychiolaeth wael o bobl hŷn yn y cyfryngau
- Triniaeth anghyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Gwahaniaethu mewn gwasanaethau ariannol, yn enwedig o ran bargeinion ar-lein yn unig
- Diffyg dewis ac ansawdd mewn nwyddau a gwasanaethau

### Rhoi diwedd ar dlodi tanwydd

Bydd hyn byth yn digwydd tra bod elw yn bwysicach na phobl. Mae angen i bobl hŷn allu cael ynni fforddiadwy i'w galluogi i fyw yn ddiogel ac yn gysurus. Dylid ystyried incwm penodedig cyfyngedig pobl hŷn, eu hanghenion iechyd a faint o amser y maent yn ei dreulio gartref. Dylid trefnu bod mwy o wybodaeth ar gael am inswleiddio.

### Cadw'r GIG fel y cafodd ei ragweld ar y dechrau; yn rhad ac am ddim yn y man darparu

### Ariannu gofal cartref a gofal cymdeithasol trwy drethiant cyffredinol

### Dylai urddas pobl hŷn, a pharch atynt, fod wrth wraidd yr holl wasanaethau gofal

- Dylai urddas fod yn hollol arferol, ac ni ddylid goddef camdriniaeth. Dylai urddas gynnwys parch am breifatrwydd, cymorth â bwyta, yfed a defnyddio'r ystafell ymolchi, gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ysbytai, a dewis cynorthwydd gwrywaidd neu fenywaidd i helpu â gofal

## Argaeledd cynyddol cartrefi fforddiadwy a phriodol

- Rheoli rhenti a chymorth i bobl hŷn sy'n dymuno symud i gartref llai o faint
- Cynyddu nifer yr eiddo a byngalos llai newydd sy'n cael eu hadeiladu
- Darparu cyllid ar gyfer addasiadau i berchnogion a thenantiaid cartrefi hŷn
- Dylai'r holl bobl hŷn allu byw mewn llety diogel a chyfforddus

## Argaeledd gwell gwybodaeth a chynghor o ansawdd da sy'n hawdd eu deall

Mae angen gwella hyn yn gyflym i alluogi pobl i gael eu hysbysu'n well am faterion sy'n effeithio arny'n nhw. Mae angen rhoi diwedd ar fiwrocratiaeth a darparu ffurflenni a gwybodaeth mewn iaith glir, bob dydd. Dylai cyfathrebu effeithiol dros y ffôn a thrwy lythyrau fod ar gael bob amser.

## Dylai urddas pobl hŷn, a pharch atynt, fod wrth wraidd yr holl wasanaethau gofal

- Dylai fod pob un o'r staff wedi eu hyfforddi yn unol â safonau'r GIG, a dylid eu monitro'n rheolaidd. Mae angen recriwtio digon o staff sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd Cymraeg, i ofalu am bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg
- Rhaid ymgynghori â phobl hŷn wrth wneud penderfyniadau

## Mynediad at wasanaethau cymunedol lleol, swyddfeydd post, siopau, gwasanaethau iechyd, toiledau cyhoeddus a lleoedd i gymdeithasu i sicrhau bod cymunedau lleol yn parhau i fod yn fywiog

Mae angen symud tuag at gydlyniant cymunedol a chymdogaethau da, fel y gwelwyd yng nghenedlaethau'r gorffennol ac yn ystod argyfwng Covid-19. Mae angen i amwynderau lleol fod yn fwy addas at eu diben a chyflogi mwy o staff. Mae angen i bobl hŷn allu dewis p'un a ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r chwyldro digidol ac na wahaniaethir yn eu herbyn os nad ydynt yn dymuno. Dylai hyfforddiant fod ar gael yn fwy rhwydd i'r rheiny sy'n dymuno cymryd rhan.

## Mynediad parhaus at arian parod ar y stryd fawr ac mewn cymunedau

## Welsh translation?

### For further information please contact:

Fforwm Pensiynwr Cymru  
Llawr Isaf, Tŷ Mariner  
Llys Trident  
Heol East Moors  
Caerdydd CF24 5TD

[www.pensionersforumwales.org](http://www.pensionersforumwales.org)  
© Pensioners Forum Wales 2020